

# BREUDDWYD NAS GWIREDDWYD

## gan J. G. COWELL

GWELAIS yn ddiweddar mewn hen gylchgrawn Cymraeg, sef *Cymru* (O. M. Edwards), lythra a ysgrifennwyd o Boston, UDA, yn 1879 gan y Tad B. M. Hughes. Fe'm hatgoffwyd am gysylltiad rhwng yr offeiriad hwn, crwydryn a'r capel bychan unig a ailadeiladwyd ar Ynys Sant Tudwal ym Mae Ceredigion.

Fy nhaid, Dr Owen Wynne Griffith, a oedd yn feddyg ym Mhwhllheli ac a fu'n byw yno o 1880 hyd 1939, a adroddodd yr hanes am y crwydryn wrthyf. Yn y dyddiau cynnar un o'i amryfal ddyletsyddau oedd bod yn swyddog meddygol i'r wrcws leol. Cynigiai'r wrcws fwyd a chysgod i'r tlawd a'r digartref yn y dyddiau anodd hynny amser maith yn ôl, cyn dyfodiad y Wladwriaeth Les.

Nid oedd yn anghyffredin bryd hynny gweld llawer o grwydriaid, neu 'foneddigion y ffordd fawr' fel y'u gelwid yn fwy caredig, yn crwydro cefn gwlad. Un diwrnod cerddodd crwydryn felly i mewn i'r wrcws ym Mhwhllheli. Roedd mewn cyflwr gwael, yn fudr iawn, yn newynog ac yn sâl oherwydd hunan-esgeulustod. Roedd y staff yn hen gyfarwydd â gweld dynion mewn cyflwr felly, ac wedi iddynt ei olchi a chynnig bwyd iddo, fe'i rhoddwyd yn y gwely yn un o'r ystafelloedd cysgu mawr glân. Llosgwyd ei ddillad a oedd yn fyw gan lau. Ond gwaethygodd ei gyflwr meddygol cymaint nes y galwodd y staff ar fy nhaid, y meddyg, i'w archwilio a rhoi triniaeth iddo.

Yn ystod ei ymweliadau mynych â'r claf, darganfu fy nhaid mai enw'r crwydryn oedd Hughes, a'i fod wedi ei fagu yng Nghaernarfon a bod ganddo frawd a oedd yn offeiriad. Yn ddiweddarach yn ystod sgysiaid pellach canfu fy nhaid, er mawr syndod iddo, fod Hughes wedi'i gymhwysu i fod yn feddyg, ond ei fod am ryw reswm wedi teimlo beichiau bywyd yn rhy drwm fel ei fod, yn ôl ein chwedl gyfoes, wedi 'syrthio allan'.

Teimlai fy nhaid yn annifyr iawn wrth weld cyd-feddyg yn y fath sefyllfa druenus, a chan ei fod yn ddyn caredig, rhoddodd iddo arian a dillad. Gwellodd Hughes yn raddol ymhob ffordd a gwnaeth personoliaeth a newid agwedd y claf gymaint o argraff ar fy nhaid fel y cynigiodd iddo waith fel cynorthwy-ydd iddo ef ei hun. Derbyniodd y gŵr y gwaith yn ddiolchgar. Gweithiodd Dr Hughes am gyfnod ym Mhwhllheli, wedyn wrth i'w hunan-barch a'i hunan-

hyder gynyddu, aeth ymlaen i fod yn feddyg ymgynghorol yn Glasgow. Yn ddiweddarach dychwelodd i fyw ym Miwmares, lle bu'n feddyg uchel ei barch gan bawb.

Ers i mi glywed hanes y crwydryn flynyddoedd lawer yn ôl gan fy nhaid, rwyf wedi teimlo chwillfrydedd ynghylch y ffaith fod gan y crwydryn-feddyg frawd a oedd yn offeiriad. Daw hyn â ni at y llythyr yn *Cymru* gan y Tad B. M. Hughes — ef, fel yr ydych wedi dyfalu efallai, oedd y brawd hwnnw. Atebodd y llythyr hwn lawer o'r cwestiynau ynghylch y Tad Hughes a'i deulu a fu'n ddirgelwch i mi tan nawr.

Meibion y Parch. Thomas Hughes (curad yn Eglwys Llanbeblig) a'i wraig Charlotte, Gwyddeles o Swydd Meath, oedd y Tad Hughes (a anwyd yng Nghaernarfon yn 1833) a'i frawd, y crwydryn-feddyg.

Wedi marwolaeth eu mam yn wraig ifanc yn 1845, bu farw eu tad yn 1847, a gosodwyd y ddau fachgen yng ngofal ymddiriedolwyr gan gynnwys eu hewythr, y Parch. Thomas Hughes, gweinidog gyda'r Methodistiaid a blaenor. Byddai fy nhaid, a oedd yn Fethodist brwdfrydig, wedi adnabod yr ymddiriedolwyr — prin y dychmygai y byddai'n dod i gysylltiad â'r ddau fachgen yn ddiweddarach.

Mae'r Tad Hughes yn barod i gyfaddef yn ei lythyr y bu'n fachgen drwg iawn yn ystod y cyfnod cythryblus hwn pan gollodd ei rieni, ac y parodd gryn ofid i'w ewythr, y Parch. Thomas Hughes. Ond dywed i'w agwedd tuag at bopeth newid yn sylweddol yn 1850, pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Dechreuodd gymdeithasu ag amryw o bobl 'lawen' a darllen llyfrau difrif; cymerodd gysur ysbrydol mawr mewn gweddi. Rwy'n siŵr y digwyddodd y newid hwn yn ei agwedd yn bennaf oherwydd awyrgylch ei gartref newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn o edrych yn ôl cyfarfu â'r Parch. Edward Kenrick, offeiriad yn yr Eglwys Gatholig yn Lerpwl, yn ystod siwrnai ar y trê. Cymerodd y ddau at ei gilydd ar unwaith ac fe dyfodd eu cyfeillgarwch yn ystod y misoedd canlynol. Wedi llawer o gyfarfodydd a sgysiaid penderfynodd y llanc ifanc newid ei ymlyniad crefyddol a mynd yn offeiriad yn yr Eglwys Gatholig.

Mae'n disgrifio yn ei lythyr y modd y paratodd ei hun ar gyfer ei yrfa newydd trwy fynychu Ysgol Prior Park, Caerfaddon. Mae hefyd yn cydnabod ei

ddyled enfawr i'w gyn-athrawon yn yr ysgolion yn Rhoscolyn, Caergybi, Môn, lle bu ei dad yn gwasanaethu, ac yn enwedig i'w ewythr, John Hughes, prifathro Ysgol Botwnnog, Llŷn. Ar ôl treulio pum mlynedd yng Nghaerfaddon aeth i Brifysgol Llundain ond oherwydd afiechyd fe'i cynghorwyd, yn 1855, i fynd i goleg diwinyddol ym Mhortiwal, lle y gobeithid y byddai'r hinsawdd fwynach yn llesol iddo. Cyn darllen y llythyr hwn roeddwn yn fynych wedi ceisio dyfalu paham yr aeth i goleg diwinyddol ym Mhortiwal yn hytrach nag i un yn Rhufain neu Ffrainc, llefydd â thraddodiad o gysylltiadau cadarn â Chymru.

Sylweddolodd y Tad Hughes, a fagwyd mewn cartref dwyieithog, fod ganddo ddawn i ddysgu ieithoedd ac yn ystod ei fywyd dysgodd ddeuddeg iaith, a dod yn rhugl ynddynt oll. Pregethodd lawer gwaith ym Mhortiwgaleg. Wedi iddo gael ei ordeinio yn 1858 daeth yn ôl i Gymru i weld ei deulu. Yn fuan wedi iddo ddychwelyd i Bortiwgal fe'i hapwyntiwyd, trwy Lythyr Apostolaidd, i wasanaethu o dan yr Esgob Ferrier yn Urdd y Brodyr Duon, a daeth yn Genhadwr Apostolaidd, gwaith yr oedd yn arbennig o gymwys i'w wneud oherwydd ei ddoniau arbennig.

Yn ei swydd newydd teithiodd yn helaeth am naw mlynedd ar hugain, gan bregethu yn Ewrop ac America, lle y bu'n gwasanaethu llwythau'r Indiaid.

Yna yn ystod ei gyfnod yn Esgobaeth Providence yn 1874-75 yn Boston, teimlodd alwad i ddychwelyd i'w famwlad; ei freuddwyd oedd argyhoeddi ei gyd-Gymry i droi'n ôl at eu hen ffydd. Galwodd ei dasg newydd 'Cenhadaeth i Gymry Gogledd Cymru'.

Soniodd am hyn wrth ei bennaeth, yr Esgob Knight, a chan y gwyddai hwnnw gymaint oedd brwdfrydedd ac mor aml oedd doniau'r Tad Hughes, rhoddodd ei fendith ar y fenter a chaniatáu i'r offeiriad ddychwelyd i Gymru.

Ymgartrefodd y Tad Hughes ar gyfer y gwaith hwn ar safle'r hen fynachdy ar y fwyaf o ddwy Ynys Sant Tudwal oddi ar Benrhyn Llŷn. Mae i'r safle hwn hanes yn ymestyn yn ôl i 1291, yn gysylltiedig ag Urdd Sant Awstin. Yn anffodus, erbyn 1540, dywed Leland fod y safle'n anial.

Yn fuan iawn dechreuodd y Tad Hughes ddigalonni yn wyneb diffyg llwyddiant ei

genhadaeth newydd. Wedi iddo fod ar yr ynys am ychydig fiseodd yn unig, ysgrifennodd at gyfaill fel a ganlyn:

*'The whole religion in this country seems to consist in the tonic-sofa (sic), so I must go with the tide and set them singing the Christian doctrine as I did with the Abundi in Africa and fight Methodism with its own weapons. The Calvinists are doing their bitter best to stop people coming near us, filling their heads with all kinds of lies.'*

Ac yntau eisoes yn anobeithio, daeth sawl anffawd ddifrifol arall i'w ran. Yn 1887 aeth ef a rhai cynorthwywyr ati i atgyweirio hen sied ac adeiladu cytiau crwn o fawn i'w cysgodi ar yr ynys noeth, ddigysgod. Methiant llwyr fu eu hymdrechion i blannu cnydau oherwydd y pridd tenau a gwael a'r gwyntoedd cryfion a chwythai ar yr ynys. Yna, yn goron ar eu trallod, distrywiwyd y cytiau yr oeddynt wedi eu hadeiladu mor ddiwyd, gan storm arbennig o ffyrnig, a suddwyd y ddau gwch oedd ganddynt — ni allent felly adael yr ynys.

Yn fuan iawn sylwodd y pysgotwyr lleol ar y sefyllfa ddifrifol ar yr ynys, ac aethant i gyrchu'r criw bychan oer, newynog a digalon, yn ôl i'r tir mawr.

O ganlyniad i'w holl ofidiau bu'r Tad Hughes yn wael iawn yn dilyn ei achub o'r ynys a galwyd am gymorth fy nhaid, ffrind a chymwynaswr ei frawd. Cymaint oedd pryder fy nhaid ynghylch cyflwr y Tad Hughes fel y penderfynodd alw brawd y claf, y cyn-grwydryn-feddyg o Fiwmares i Abersoch er mwyn ymgynghori ag ef. Penderfynodd y ddau fod rhaid trin y cornwyd difrifol ar gefn y claf oherwydd fod hwn, wedi ei gymhlethu ymhellach gan fflamwydden, yn gwenwyno ei system i gyd.

Ond ofer fu eu hymdrechion. Roedd corff lludddedig yr offeiriad, a ddiioddefodd esgeulustod a diffyg maeth ers cyhyd, y tu hwnt i ofal y ddau feddyg. Efallai hefyd iddo golli gobaith ac awydd byw, wrth weld ei freuddwydion yn deilchion er gwaethaf ei ymdrechion glew a'i lu traferthion. Bu farw ymhyn ychydig wythnosau.

Teg efallai yw dweud y maluriwyd breuddwyd y Tad Hughes gan ddyfroedd llwydion piwritanaidd Bae Ceredigion.

Methais â dod o hyd i'w garreg fedd ym Mynwent Llangian nac yng Nghaernarfon.

A dyna ddiwedd hanes trist ymdrech ofer a breuddwyd nas gwiredwyd offeiriad da o Gymro.